# Cofnodion - Y Pwyllgor Busnes

Lleoliad:

**Video Conference via Zoom**

Dyddiad: Dydd Mawrth, 3 Tachwedd

2020

Amser: 09.03 - 09.59

# Preifat

## Yn bresennol

| Categori | Enwau |
|---|---|
| Aelodau'r Pwyllgor: | Elin Jones AS, Llywydd (Cadeirydd)<br>Rebecca Evans AS<br>Darren Millar AS<br>Siân Gwenllian AS |
| Staff y Pwyllgor: | Aled Elwyn Jones (Clerc) |
| Eraill yn bresennol | Ann Jones AS, Y Dirprwy Lywydd<br>Manon Antoniazzi, Prif Weithredwr a Chlerc y Senedd<br>Siwan Davies, Cyfarwyddwr Busnes y Senedd<br>Siân Wilkins, Pennaeth Gwasanaeth y Siambr a Phwyllgorau<br>Julian Luke, Pennaeth Pwyllgorau Polisi a Deddfwriaeth, Pennaeth Pwyllgorau Polisi a Deddfwriaeth<br>Gwion Evans, Pennaeth Swyddfa Breifat y Llywydd<br>Elin Roberts, Cynghorwr Polisi i'r Llywydd<br>Helen Carey, Llywodraeth Cymru<br>Bethan Garwood |

Senedd Cymru
Welsh Parliament

## 1 Cyflwyniad, ymddiheuriadau a dirprwyon

## 2 Cofnodion y cyfarfod blaenorol

Cytunwyd ar gofnodion cyfarfod yr wythnos diwethaf i'w cyhoeddi.

## 3 Trefn busnes

### 3.1 Busnes yr Wythnos Hon

**Busnes yr Wythnos Hon**

Tynnodd y Trefnydd sylw'r Rheolwyr Busnes at y nifer o newidiadau i agenda dydd Mawrth, fel y cytunwyd yn y cyfarfod blaenorol.

**Egwyliau**

Cytunodd y Pwyllgor Busnes nad oedd angen trefnu egwyliau ar gyfer yr wythnos hon, gan nad oes angen newid Aelodau mewn Cyfarfod Llawn rhithiol.

### 3.2 Amserlen Busnes y Llywodraeth ar gyfer y tair wythnos nesaf

Tynnodd y Trefnydd sylw'r Rheolwyr Busnes at y newidiadau canlynol:

**Dydd Mawrth 10 Tachwedd**

- Datganiad gan y Gweinidog Addysg: Ymdrin â chymwysterau yn 2021 (45 munud)
- Dadl: Cyfnod 3 ar y Bil Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) (~~360~~ 300 munud)

**Dydd Mawrth 17 Tachwedd 2020**

- Datganiad gan Weinidog yr Economi, Trafnidiaeth a Gogledd Cymru Cynllun Adfer Economaidd (45 munud) – *Gohiriwyd o 3 Tachwedd*
- Datganiad gan y Gweinidog Cyllid a'r Trefnydd: Y Model Buddsoddi Cydfuddiannol (45 munud)
- Datganiad gan y Dirprwy Weinidog a'r Prif Chwip: Nodi Wythnos Rhyng-ffydd (45 munud)
- Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol ar y Bil Ardrethu Annomestig (Toiledau Cyhoeddus) (15 munud) – *Gohiriwyd o 3 Tachwedd*
- Memorandwm Cydsyniad Offeryn Statudol ar Reoliadau Ymadael â'r Undeb Ewropeaidd (Addasiadau Canlyniadol) (Ymadael â'r UE) 2020 (15 munud) – *Gohiriwyd o 3 Tachwedd*
- Dadl:  Ail Adroddiad Blynyddol Llywydd Tribiwnlysoedd Cymru (30 munud) – *Gohiriwyd o 3 Tachwedd*
- Dadl:  Adroddiad y Grŵp Cynllunio Etholiadau (45 munud)

### 3.3 Amserlen Busnes y Senedd ar gyfer y tair wythnos nesaf

Cytunodd y Pwyllgor Busnes i gynnwys yr eitemau busnes a ganlyn yn yr amserlen:

**Dydd Mercher 11 Tachwedd 2020 –**

Dadl ar Ddeiseb P-05-1060 Caniatewch i archfarchnadoedd werthu eitemau "nad ydynt yn hanfodol" yn ystod y cyfyngiadau symud (30 munud)

Dadl ar adroddiad Pwyllgor yr Economi, Seilwaith a Sgiliau: Caffael cyhoeddus yn yr economi sylfaenol (~~60~~ 30 munud)

**Dydd Mercher 25 Tachwedd 2020 –**

- Dadl ar Gynnig Deddfwriaethol gan Aelod (30 munud)
- Dadl y Pwyllgor Newid Hinsawdd, Amgylchedd a Materion Gwledig ar y Fframwaith Datblygu Cenedlaethol (60 munud)
- Amser a neilltuwyd i'r Ceidwadwyr Cymreig (60 munud)

### 3.4 Llythyr gan Gadeirydd y Pwyllgor Deisebau

Cytunodd y Pwyllgor Busnes i drefnu'r ddadl ar y ddeiseb ar gyfer dydd Mercher nesaf am 30 munud, a gofynnodd i Bwyllgor yr Economi, Seilwaith a Sgiliau leihau'r amser ar gyfer eu dadl ar y diwrnod hwnnw i 30 munud i ddarparu ar gyfer hyn.

## 4 Deddfwriaeth

### 4.1 Rheoliadau Diogelu Iechyd (Cyfyngiadau Coronafeirws) (Rhif 3) (Cymru) 2020

Nododd y Pwyllgor Busnes y bydd y rheoliadau'n cael eu hystyried gan y Senedd heddiw, a bod y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad eisoes wedi adrodd.

### 4.2 Llythyr gan Gadeirydd y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad

Trafododd y Pwyllgor Busnes y llythyr a chytunodd i barhau i adolygu'r broses.

## 5 Cyllideb Ddrafft Llywodraeth Cymru ar gyfer 2021-22

### 5.1 Llythyr gan y Gweinidog Cyllid a'r Trefnydd:

Cytunodd y Pwyllgor Busnes ar amserlen ddiwygiedig y gyllideb, gan gynnwys dyddiad diwygiedig o 4 Chwefror i bwyllgorau gyflwyno adroddiad arni. Cytunodd y Pwyllgor Busnes hefyd ar gais y Pwyllgor Cyllid i gynnal cyfarfod ychwanegol yn ystod y toriad ar

8 Ionawr, a dywedodd y Gweinidog Cyllid a'r Trefnydd y byddai'n hapus i fod yn bresennol.

## 6 Busnes y Senedd

### 6.1 Pwyllgor y Rhanbarthau - Grŵp Cyswllt y DU

Cytunodd y Pwyllgor Busnes y dylai'r Llywydd enwebu David Rees a Russell George yn aelod a dirprwy, yn eu drefn honno, o Grŵp Cyswllt Pwyllgor Rhanbarthau'r DU ar gyfer gweddill y Senedd hon.

## 7 Papurau i'w nodi

### 7.1 Llythyr gan y Llywydd

Nododd y Rheolwyr Busnes y llythyr yn cadarnhau sefydlu grŵp newydd y Gynghrair Annibynnol ar gyfer Diwygio, a nodi na fyddai'r grŵp yn cael ei alw yn ystod cwestiynau arweinwyr na llefarwyr.

## Unrhyw Fater Arall

### Y Rheolau Sefydlog

Cytunodd y Pwyllgor Busnes i drefnu cyfarfodydd ar wahân i drafod newidiadau i'r Rheolau Sefydlog cyn diwedd y Pumed Senedd.

### Aelodaeth Pwyllgorau

Cytunodd y Pwyllgor Busnes i gyflwyno cynigion i ethol Caroline Jones i'r Pwyllgor Busnes, a Mark Reckless i'r Pwyllgor Cyllid.

Cytunodd y Pwyllgor hefyd i ofyn i grŵp y Gynghrair Annibynnol ar gyfer Diwygio ystyried derbyn lle ar y Pwyllgor Materion Allanol a Deddfwriaeth Ychwanegol a oedd gynt gan Mandy Jones, cyn gwneud unrhyw benderfyniadau pellach ynghylch dyrannu lleoedd pwyllgor i'r grŵp hwnnw.

**Cyfarfodydd Llawn yr Wythnos Nesaf**

Trafododd y Rheolwyr Busnes y posibilrwydd o ddychwelyd i fformat hybrid ar gyfer cyfarfodydd yr wythnos nesaf, a chytunwyd i drafod ymhellach gyda'u grwpiau cyn i'r Llywydd wneud penderfyniad.